

# Adroddiad ar Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

Chwefror 2021

## Cefndir

1. Mae'r Pumed Senedd yn dod i ben, ac mae etholiad cyffredinol nesaf y Senedd ("Etholiad 2021") wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mai 2021. Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf, trafodwyd sut y gallai pandemig y coronafeirws effeithio ar drefniadau Etholiad 2021.

## Y Grŵp Cynllunio Etholiadau

2. Yn sgil hynny, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynllunio Etholiadau ym mis Mehefin 2020 i drafod effaith bosibl cyfyngiadau'r coronafeirws ar weinyddu Etholiad 2021, ac a oedd angen addasiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol berthnasol i sicrhau etholiad diogel.

3. Roedd y Grŵp Cynllunio Etholiadau yn cynnwys pleidiau gwleidyddol, swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â'r gwaith o gynnal yr etholiad, fel y Comisiwn Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau.

4. Ar 29 Medi 2020, a chyn cyhoeddi adroddiad y Grŵp, dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, nad oedd yn "iawn ymestyn y Senedd hon y tu hwnt i'w thymor presennol".<sup>1</sup> Dywedodd y Prif Weinidog hefyd ei fod yn teimlo'n gryf bod "angen adnewyddu'r Senedd yn ddemocrataidd".<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Y Cyfarfod Llawn, 29 Medi 2020, Cofnod y Trafodion

<sup>2</sup> Y Cyfarfod Llawn, 29 Medi 2020, Cofnod y Trafodion



**5.** Cyhoeddwyd Adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau ar 6 Tachwedd 2020.<sup>3 4</sup> Yn yr adroddiad, cytunodd y Grŵp ar gyfres o egwyddorion a chasgliadau i ategu gwaith cynllunio a pharatoadau manylach ar gyfer Etholiad 2021, gan gynnwys y dylid parhau â'r nod o gynnal Etholiad 2021 ar 6 Mai 2021. Er mwyn cyflawni hyn, argymhellodd y Grŵp:

- trafod ffyrdd o wneud y broses gynllunio etholiadol yn fwy hyblyg, gan adlewyrchu cyngor iechyd y cyhoedd;
- y dylid cael ymgyrch gynnar i hybu ceisiadau am bleidlais drwy'r post, yn enwedig i bleidleiswyr sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain gynt neu'r rhai yr ystyrir eu bod yn agored i niwed;
- y dylai fod mwy o hyblygrwydd o ran pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy, wrth barhau i gynnal gwiriadau priodol i ddiogelu rhag y risg o dwyll pleidleisio;
- y dylid ystyried pleidleisio yn 'esgus rhesymol' dros adael y tŷ pe bai rheoliadau'r coronafeirws ar waith ar adeg Etholiad 2021; ac
- y gellid cyfrif pleidleisiau Etholiad 2021 yn unol ag amserlen estynedig pe bai hynny'n well o safbwynt iechyd a diogelwch y rhai dan sylw.

**6.** Yn ei ddatganiad ar 6 Tachwedd 2020, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r meysydd consensws y cytunwyd arnynt gan y Grŵp Cynllunio Etholiadau.<sup>5</sup>

**7.** Nid oedd y Grŵp Cynllunio Etholiadau yn cytuno ar bob mater, ac ni ddaeth i gonsensws cyffredinol ar yr angen am drefniadau wrth gefn i ohirio Etholiad 2021.

**8.** Trafodwyd adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd 2020.<sup>6</sup> Yn y drafodaeth honno, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n anghyfrifol i Lywodraeth Cymru "beidio â gwneud cynlluniau wrth gefn rhag ofn

---

<sup>3</sup> [Adroddiad ar waith y Grŵp Cynllunio Etholiadau: Medi 2020](#)

<sup>4</sup> Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau ar 9 Tachwedd 2020 ac wedi hynny [ysgrifennodd](#) at y Prif Weinidog ar 12 Tachwedd. [Atebodd](#) y Prif Weinidog ar 17 Tachwedd.

<sup>5</sup> [Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau, 6 Tachwedd 2020](#)

<sup>6</sup> [Y Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion](#)

---

bydd y pandemig mor ddifrifol ym mis Mai'r flwyddyn nesaf fel nad yw'n ddiogel cynnal yr etholiad.”<sup>7</sup>

## Y gyfraith bresennol ar etholiad cyffredinol yn y Senedd

---

**9.** Pennir dyddiad etholiad cyffredinol arferol y Senedd yn adran 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006"). Mae'n darparu bod pob etholiad cyffredinol arferol y Senedd i'w gynnal ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai yn y bumed flwyddyn galendr yn dilyn yr etholiad cyffredinol arferol blaenorol. Cynhaliwyd yr etholiad diwethaf yn 2016.

**10.** Gan ddefnyddio'r pwerau presennol o dan adran 4 o *Ddeddf 2006*, mae gan y Llywydd ddisgresiwn i amrywio dyddiad Etholiad 2021 drwy ei gynnal fis yn gynharach, neu ei ohirio tan 6 Mehefin 2021. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i ohirio Etholiad 2021 y tu hwnt i'r dyddiad hwn.

**11.** Yn adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau, nodwyd bod y rhan fwyaf o'r pleidiau gwleidyddol yn barod i ystyried "estyniad posibl i bŵer [cyfredol] y Llywydd i amrywio dyddiad etholiad y Senedd yn 2021 er mwyn gallu symud y dyddiad fwy na mis" fel "[m]esur wrth gefn in extremis", ond nid oedd consensws ar draws y Grŵp cyfan.<sup>8</sup>

**12.** Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2020, cydnabu'r Prif Weinidog y byddai cynyddu pwerau'r Llywydd i amrywio dyddiad Etholiad 2021 yn "gam cyfansoddiadol mawr".<sup>9</sup> Serch hynny, cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn paratoi i ddrafftio Bil i wneud darpariaeth ar gyfer gohirio Etholiad 2021 hyd at chwe mis pe bai angen. Dywedodd y Prif Weinidog:

“Bydd hyn yn caniatáu i ni gyflwyno'r deddfwriaeth i'r Senedd os yw'r sefyllfa ar ôl y Nadolig yn awgrymu y bydd angen gwneud hyn fel dewis olaf.”<sup>10</sup>

**13.** Yn ystod yr un ddadl, awgrymodd y Prif Weinidog y gallai ymestyn pwerau'r Llywydd i ohirio'r etholiad olygu bod angen mesurau diogelu, fel pleidlais 'uwchfwyafrif' o ddwy ran o dair yn y Senedd cyn y gallai'r Llywydd arfer unrhyw bwerau estynedig i ohirio'r etholiad.<sup>11</sup> Awgrymodd y Prif Weinidog hefyd y gellid

---

<sup>7</sup> Y Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion

<sup>8</sup> Adroddiad ar waith y Grŵp Cynllunio Etholiadau: Medi 2020

<sup>9</sup> Y Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion

<sup>10</sup> Y Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion

<sup>11</sup> Y Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion

---

atodi amodau i bwerau o'r fath a fyddai'n gorfodi'r Llywydd i ymgynghori'r cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion iechyd y cyhoedd ar y pryd.<sup>12</sup>

## Gweithdrefn y Bil Brys a chyflwyno'r Bil

**14.** Mae Rheol Sefydlog 26.95 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pasio deddfwriaeth frys os caiff ei chymeradwyo gan gynnig yn y Senedd. Bil Llywodraeth y mae angen ei wneud yn Ddeddf yn gynt nag y byddai proses graffu ddeddfwriaethol arferol y Senedd yn ei ganiatáu yw Bil Brys.

**15.** Ar 26 Ionawr 2021, dywedodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ("y Gweinidog") wrth y Senedd:

"Rwy'n siŵr ein bod i gyd wedi blino ar ddweud a chlywed y gair 'digynsail', ond mae'n wir serch hynny bod pandemig y coronafeirws yn parhau i'n hwynebu gyda dewisiadau a phenderfyniadau na fyddem, mewn amgylchiadau eraill, yn sicr wedi'u hystyried [...]"<sup>13</sup>

**16.** Gwnaeth y Gweinidog y sylwadau hyn wrth i'r Senedd drafod cynnig sy'n caniatáu i Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) ("y Bil") gael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth. Derbyniwyd y cynnig hwn, ynghyd â chynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) yn cadarnhau'r amserlen ar gyfer craffu ar y Bil.<sup>14</sup>

**17.** Ar 27 Ionawr 2021, cyflwynodd y Gweinidog y Bil.<sup>15</sup>

**18.** Wrth gyflwyno'r Bil, cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ei barn hi.<sup>16</sup>

**19.** Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnig cyflwyno trefniadau etholiadol wrth gefn at ddibenion Etholiad 2021 ac ar gyfer is-etholiadau'r Senedd ac awdurdodau lleol.

**20.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil:

---

<sup>12</sup> Y Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2020, Cofnod y Trafodion

<sup>13</sup> Y Cyfarfod Llawn, 26 Ionawr 2021, Cofnod y Trafodion

<sup>14</sup> Y Cyfarfod Llawn Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 fod Bil a elwir yn Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) yn cael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth a Chynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) i gytuno ar amserlen ar gyfer y Bil a elwir yn Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws), 26 Ionawr 2021

<sup>15</sup> Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

<sup>16</sup> Datganiad gan y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws), Ionawr 2021

---

"Bwriad cadarn [Llywodraeth Cymru] yw y bydd yr etholiad yn mynd rhagddo ar 6 Mai 2021. Ond mae'n ddoeth sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar waith os bydd y pandemig yn peri bygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd ac i gynnal yr etholiad."<sup>17</sup>

## Ystyriaeth y Pwyllgor

**21.** Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog ar 1 Chwefror 2021.<sup>18</sup>

**22.** Mae'r Bil yn ymwneud â materion sy'n hanfodol i gynnal democratiaeth ac atebolrwydd democrataidd yng Nghymru. Un o ganlyniadau ymdrin â'r Bil fel Bil Brys yw nad oes llawer o amser i ddeall goblygiadau ei ddarpariaethau'n llawn neu glywed barn rhanddeiliaid. O ganlyniad, mae pryder y gallai'r gwaith o graffu ar y Bil yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3 fod yn llai gwybodus yn sgil hynny.

**23.** Os cytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil, mae ein hadroddiad yn ceisio rhoi rhagor o wybodaeth i'r Aelodau, a allai lywio'r gwaith craffu a'r dadleuon yn ystod y cyfnodau dilynol yn y Senedd.

Yr angen am y Bil ac ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddeddfu

---

**24.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd fod Llywodraeth Cymru:

"...yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau y gweithredir... mesurau eraill i wneud etholiadau'n fwy diogel. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno dulliau cadw pellter cymdeithasol a hylendid mewn gorsafoedd pleidleisio, yn ogystal ag annog cofrestru ar gyfer pleidleisio absennol fel nad oes angen i bleidleiswyr fod yn bresennol yn bersonol os nad ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Ond gan fod y rheolau ar gyfer ein hetholiadau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, rydym ni wedi dod i'r casgliad bod angen i ni roi deddfwriaeth ar waith a fydd yn galluogi gohirio'r etholiad os—a dim ond os—yw'r Senedd yn cytuno bod sefyllfa iechyd y cyhoedd yn ei gwneud hi'n amhosibl bwrw ymlaen."<sup>19</sup>

---

<sup>17</sup> Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws), Memorandwm Esboniadol, Ionawr 2021, paragraff 8

<sup>18</sup> Mae'r holl sylwadau yn yr adroddiad hwn a briodolir i'r Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun y dystiolaeth a roddwyd i ni ganddynt, yn deillio o Gofnod y Trafodion ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 1 Chwefror 2021

<sup>19</sup> Y Cyfarfod Llawn, 26 Ionawr 2021, Cofnod y Trafodion

---

**25.** O ran defnyddio gweithdrefn y Bil Brys, dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd hefyd:

"Gyda'r etholiad yn prysur agosáu, mae'n well rhoi unrhyw newidiadau i gyfraith etholiadol ar waith ymhell cyn y diwrnod pleidleisio. Mae hyn yn bwysig o ran cynorthwyo gweinyddwyr etholiadol i baratoi ar gyfer yr etholiad a rhoi eglurder iddyn nhw gyflawni eu swyddogaeth hanfodol. Er ein bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, rhaid inni ganiatáu cymaint o amser ag y gallwn iddyn nhw wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Nid yw'r amser a adawyd rhwng nawr a'r diwrnod pleidleisio ym mis Mai yn ddigon i ganiatáu ar gyfer y broses graffu lawn ac i weinyddwyr wneud paratoadau."<sup>20</sup>

**26.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a ddylai Llywodraeth Cymru fod wedi ymdrin â'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol fel y Bil yn llawer cynt nag y mae wedi'i wneud. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod adnoddau Llywodraeth Cymru, tua diwedd 2020, wedi'u hymrwymo i faterion yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE a phandemig y coronafeirws, ac nad oedd modd i Lywodraeth Cymru wneud dim mwy na'r hyn a oedd yn bosibl ar y pryd.

**27.** O gofio mai bwriad cadarn Llywodraeth Cymru yw bod Etholiad 2021 yn cael ei gynnal ar 6 Mai 2021, ac o gofio'r ffaith na ddaeth y Grŵp Cynllunio Etholiadau i gonsensws cyffredinol o ran yr angen am drefniadau wrth gefn i ohirio Etholiad 2021, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau'r rhesymau dros gyflwyno'r Bil

**28.** Ategodd y Gweinidog ei sylwadau i'r Senedd ar 26 Ionawr 2021, gan ddweud ein bod yn dal i fyw drwy gyfnod eithriadol. Nododd y Gweinidog eto hefyd mai bwriad cadarn Llywodraeth Cymru yw bod Etholiad 2021 yn cael ei gynnal yn ôl y bwriad ar 6 Mai.

**29.** Er gwaethaf y bwriad hwnnw, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn ddoeth gwneud yr holl drefniadau wrth gefn angenrheidiol er mwyn ymateb i'r risg i Etholiad 2021 yn sgil y pandemig ac felly bod angen deddfwriaeth sylfaenol.

**Casgliad 1.** Rydym yn cydnabod y dadleuon bod angen cyflwyno'r Bil, ac yn cydnabod bod gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol a fydd yn galluogi gohirio Etholiad y Senedd 2021 (ac is-etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol) am gyfnod byr yn ateb pragmatig o ystyried yr argyfwng iechyd cyhoeddus coronafeirws parhaus.

---

<sup>20</sup> Y Cyfarfod Llawn, 26 Ionawr 2021, Cofnod y Trafodion

**Casgliad 2.** Byddai wedi bod yn fwy dymunol dilyn esiampl Llywodraeth yr Alban a chyflwyno Bil yn llawer cynt fel bod modd craffu'n fanylach ar y materion cyfansoddiadol pwysig a geir yn y Bil a magu gwell dealltwriaeth o'r goblygiadau ymarferol.

### Cymhwysedd deddfwriaethol a hawliau dynol

---

**30.** Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**31.** Er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'n ofynnol, yn unol ag adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006, fod holl ddarpariaethau Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**32.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi ystyried materion hawliau dynol a'i bod yn fodlon bod y Bil yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at hawliau dynol.

**33.** Gwyddom, yn unol ag Erthygl 3 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn, ei bod yn ofynnol cynnal etholiadau rhydd ar gyfnodau rhesymol. Gan fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru bob amser ystyried materion hawliau dynol wrth baratoi Biliau, dylid nodi ystyriaethau o'r fath yn fanwl yn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Nid yw'r ffaith bod hwn yn Fil Brys a gyflwynir o ganlyniad i argyfwng iechyd cyhoeddus yn golygu bod llai o angen i gynnwys gwybodaeth o'r fath. Nid yw'n briodol nodi bod asesiad wedi'i gynnal ac yna peidio â nodi canlyniad yr asesiad hwnnw yn y Memorandwm Esboniadol.

**34.** Y tro hwn, dylai'r Memorandwm Esboniadol fod wedi cynnwys dadansoddiad o ba un a yw'r Bil yn cynnwys Erthygl 3 o'r Protocol Cyntaf ac, os felly, sut y gellir cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth â'r hawl. Dylai'r Memorandwm Esboniadol fod wedi cynnwys manylion hefyd am y trafodaethau a gafwyd ynghylch a yw darpariaethau'r Bil yn cyffwrdd ag unrhyw rai o hawliau eraill y Confensiwn.

**35.** O ystyried bod asesiad o'r fath wedi'i gynnal a'i fod yn ofniad yng nghydestun pennu cymhwysedd deddfwriaethol, ni ddylai'r gwaith o'i gyhoeddi fod yn feichus.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog gyhoeddi asesiad Llywodraeth Cymru o effaith darpariaethau'r Bil ar hawliau dynol cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na 5 Chwefror 2021.



## Etholiad 2021 (adran 1)

---

**36.** Mewn perthynas ag adran 1 o'r Bil, mae'r Nodiadau Esboniadol yn datgan bod adran 1 o'r Bil yn diffinio'r term "etholiad 2021". Nid yw'n dweud yn unman yn y Bil (gan gynnwys y teitl hir) mai dim ond etholiad 2021 ac is-etholiadau'r Senedd ac awdurdodau lleol yn 2021 y mae'r Bil yn ymwneud â hwy.

**37.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd:

"Nod y Bil hwn yw cyflwyno newidiadau dros dro mewn ymateb i'r heriau uniongyrchol a gyflwynir gan y pandemig, ac ni fwriedir iddo wneud newidiadau parhaol i'n cyfreithiau etholiadol. Dim ond yn 2021 y bydd y darpariaethau yn y Bil yn berthnasol ac ni fyddant yn cael unrhyw effaith ar etholiadau yn y dyfodol. Mae cyfraith etholiadol yn bwnc cymhleth, ac fe ddylid craffu'n drwyadl ar newidiadau parhaol yn y maes hwn."<sup>21</sup>

**38.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth fachlud fel bod darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud ag Etholiad 2021 yn peidio â chael effaith y diwrnod ar ôl i'r Senedd newydd gyfarfod am y tro cyntaf, ac fel bod gweddill y Bil yn peidio â chael effaith ar 5 Tachwedd 2021.

**39.** Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd angen darpariaeth fachlud yn y Bil gan mai dim ond Etholiad 2021 y gall y Bil fod yn gymwys iddo. Dywedodd y Gweinidog hefyd y bydd Bil yn peidio â chael effaith i bob pwrpas ar ôl 5 Tachwedd 2021.

**40.** Nid ydym yn cytuno â'r asesiad hwn. Er enghraifft, os caiff Etholiad 2021 ei ohirio tan 5 Tachwedd, byddai adran 4 yn parhau i fod yn gymwys ar ôl 5 Tachwedd i bennu dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd newydd. At hynny, ac yn fwy arwyddocaol, gallai'r pŵer a ddarperir gan adran 12 o'r Bil ganiatáu i Weinidogion Cymru newid drwy reoliadau ar y dyddiad a nodir yn adran 5(3)(b) o'r Bil, sef 5 Tachwedd 2021.

**41.** O ystyried barn Llywodraeth Cymru (a ategwyd gan sylwadau'r Gweinidog yn ein cyfarfod) mai dim ond i Etholiad 2021 y mae'r Bil yn gymwys, ni welwn reswm dros wrthwynebu cynnwys darpariaeth fachlud yn y Bil.

**Argymhelliad 2.** Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn glir am ba gyfnod y mae'r mesurau wrth gefn a nodir yn y Bil yn gymwys, yn benodol, i ddarparu bod y

---

<sup>21</sup> Y Cyfarfod Llawn, 26 Ionawr 2021, Cofnod y Trafodion



darpariaethau sy'n ymwneud ag Etholiad 2021 yn peidio â bod yn gymwys ar y diwrnod yn dilyn cyfarfod cyntaf y Senedd newydd.

### Diddymu'r Senedd gyfredol (adran 3)

---

**42.** Mae adran 3 yn rhagnodi y caiff y Senedd ei diddymu ar 29 Ebrill 2021, sef saith diwrnod cyn Etholiad 2021.<sup>22</sup> Fel arall, os caiff yr etholiad ei ohirio, mae'r adran yn darparu y bydd y diddymiad yn digwydd saith diwrnod cyn unrhyw ddyddiad etholiad dilynol.

**43.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

“Diben [y cyfnod diddymu byrrach] yw darparu dull o alluogi'r Senedd gyfredol i ymateb, os bydd angen gwneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn arwain at yr etholiad. Mae hefyd yn golygu bod y Senedd yn eistedd ac yn gallu pennu dyddiad ar gyfer y pŵl ar gyfer yr etholiad cyffredinol arferol os bydd angen gohirio'r etholiad”.<sup>23</sup>

**44.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pam y dewiswyd dechrau'r diddymiad ar 29 Ebrill 2021.

**45.** Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai cyfnod diddymu byrrach yn galluogi'r Senedd bresennol i gael amser ychwanegol i ystyried is-ddeddfwriaeth frys y gallai fod ei hangen i fynd i'r afael â phandemig parhaus y coronafeirws. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod angen yr amser ychwanegol er mwyn rhoi cyfle i'r Senedd bresennol ddefnyddio'r pwerau yn adran 5 o'r Bil i ohirio Etholiad 2021, pe bai angen y pŵer hwnnw.

### Pŵer i ohirio Etholiad 2021 am hyd at 6 mis (adran 5)

---

**46.** Mae adran 5 o'r Bil yn darparu y caiff y Prif Weinidog gynnig i'r Llywydd y caiff Etholiad 2021 ei ohirio am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws os yw'r Prif Weinidog “yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny”.

**47.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog esbonio pam y nodir y caiff y Prif Weinidog gynnig gohirio'r etholiad pan fydd o'r farn ei bod yn “angenrheidiol neu'n briodol” gwneud hynny, yn hytrach na dim ond pan fydd hynny'n “angenrheidiol”?

---

<sup>22</sup>Mae adran 2 o'r Bil yn datgymhwyso darpariaethau o dan Ddeddf 2006 sy'n pennu cyfnod diddymu arferol y Senedd a dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad.

<sup>23</sup>Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 23

**48.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y geiriad hwn yn dilyn y dull a fabwysiadwyd ym Mesur Etholiad Cyffredinol yr Alban (Coronafeirws) (Deddf 2021 erbyn hyn).

**49.** Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai rhesymau 'angenrheidiol' wedi'u cysylltu'n bendant â thystiolaeth iechyd y cyhoedd, a thra byddai rhesymau 'priodol' yn ymwneud â'r pandemig, gallent fod yn bethau fel peidio â chael y nifer ofynnol o staff i gynnal etholiad.

**50.** Yn ein barn ni, byddai peidio â chael y nifer ofynnol o staff i gefnogi'r gwaith o gynnal Etholiad 2021 yn ddigonol, yn ddigon o reswm i'w gwneud yn angenrheidiol gohirio'r etholiad. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen y gair "priodol" yn adran 5(1).

**Argymhelliad 3.** Dylid diwygio'r Bil i ddileu "neu'n briodol" o adran 5(1).

**51.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a yw'n disgwyl y bydd y Prif Weinidog yn ymgynghori ag eraill, fel y Comisiwn Etholiadol a'r Prif Swyddog Meddygol, cyn cynnig gohiriad ac, os felly, pam na chafodd dyletswydd i ymgynghori ei chynnwys ar wyneb y Bil.

**52.** Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd yn gweld angen am ddyletswydd o'r fath gan fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi mabwysiadu dull partneriaeth o fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag Etholiad 2021 a'i bod wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau a'r Prif Swyddog Meddygol.

**53.** Er bod y dull hwn o weithio'n agos ac yn rhagweithiol i'w groesawu, ni welwn unrhyw reswm pam y dylai hyn olygu na ddylai fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau o'r fath a allai gynorthwyo'r Prif Weinidog cyn iddo gynnig gohirio o dan adran 5(1). Yn ein barn ni, mae'n bwysig bod y cyhoedd yn cael gwybod pwy yr ymgynghorir â hwy ynghylch newidiadau posibl i ddyddiad etholiad democrataidd.

**Argymhelliad 4.** Dylid diwygio'r Bil fel bod yn rhaid i'r Prif Weinidog ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol, y Prif Swyddog Meddygol, ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol, cyn arfer y pŵer yn adran 5(1) o'r Bil.

**54.** Ar yr amod nad yw'r Senedd wedi'i diddymu, caiff y Llywydd ohirio Etholiad 2021 i'r dyddiad cynharaf yr ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol.<sup>24</sup>

**55.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd:

"Mater i'r Llywydd fydd cynnig dyddiad ar gyfer y bleidlais os bydd cynnig gan y Prif Weinidog i'w ohirio. Rhaid i'r dyddiad newydd a bennir ar gyfer yr etholiad fod o fewn chwe mis i 6 Mai ac mae angen cymeradwyaeth y Senedd drwy fwyafrif o ddwy ran o dair o gyfanswm seddi'r Senedd."<sup>25</sup>

**56.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog nodi sut y bydd adrannau 5(1), 5(2) a 5(3) o'r Bil yn gweithio'n ymarferol

**57.** Cadarnhaodd y Gweinidog wrthym fod gan y Llywydd ddisgresiwn llwyr o ran penderfynu cyflwyno cynnig sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Senedd i bennu diwrnod newydd ar gyfer Etholiad 2021. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd, er bod y gofyniad bod mwyafrif o ddwy ran o dair yn pleidleisio o blaid dyddiad newydd yn rhwystr fwriadol heriol i'w goresgyn, y gallai fod sefyllfa ddiddatrys rhwng y Llywydd a'r Senedd pe na bai 40 o Aelodau'r Senedd yn cytuno â'r dyddiad a gynigir. Dywedodd y Gweinidog nad oedd am i Etholiad 2021 gael ei symud i ddyddiad arall heb fod mwyafrif helaeth o blaid y dyddiad hwnnw.

**58.** Os na ellir cytuno ar ddyddiad hwyrach ar gyfer yr etholiad, byddai Etholiad 2021 yn mynd yn ei flaen ar 6 Mai.

**59.** Cyn gynted â phosibl ar ôl i ddyddiad newydd gael ei bennu, ac yn unol ag adran 5(4)(b), rhaid i'r Llywydd osod datganiad gerbron y Senedd yn cadarnhau'r dyddiad newydd a'r rheswm dros arfer y pŵer gohirio.

**60.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad yw'n ofynnol, yn yr un modd, i'r Prif Weinidog wneud datganiad sy'n rhoi'r rhesymau dros gynnig gohirio'r etholiad yn y lle cyntaf, i helpu o ran tryloywder ac i alluogi'r Llywydd a'r Aelodau i wneud penderfyniadau gwybodus.

**61.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod gofyniad ar y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, h.y. y Llywydd, ond awgrymodd y byddai'r Prif Weinidog bron yn sicr

---

<sup>24</sup>Mae adran 2 o'r Bil yn darparu bod dyddiad statudol yr etholiad yn Neddf 2006 (6 Mai 2021) yn ddarostyngedig i'r pŵer o dan adran 5 o'r Bil i ohirio'r etholiad am hyd at 6 mis.

<sup>25</sup>Y Cyfarfod Llawn, 26 Ionawr 2021, Cofnod y Trafodion

o gyhoeddi datganiad ac i ddweud wrth bobl ei fod wedi gwneud cynnig i'r Llywydd.

**62.** Mae adran 5(6) o'r Bil yn darparu bod modd i bŵer y Prif Weinidog i gynnig gohirio'r etholiad o dan adran 5(1) o'r Bil a phŵer y Llywydd o dan adran 5(2) i bennu dyddiad etholiad newydd gael eu harfer fwy nag unwaith. Ar bob achlysur, ni chaiff unrhyw ddyddiad newydd ei bennu fod yn hwyrach na 5 Tachwedd 2021. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pam y mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i'r etholiad gael ei ohirio sawl gwaith.

**63.** Dywedodd y Gweinidog wrthym mai'r canlyniad gorau posibl fyddai peidio â gohirio Etholiad 2021 o gwbl, ond bod angen y pwerau wrth gefn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y pandemig parhaus. Roedd y Gweinidog yn derbyn hefyd y byddai'n anodd rheoli sawl achos o ohirio.

**64.** Yn gyffredinol, nid ydym o'r farn bod geiriad adrannau 5(2), 5(3) neu 5(4) yn glir oherwydd nad yw union drefn y camau a fyddai'n arwain at ohirio etholiad yn glir iawn o ddarllen y darpariaethau hyn, yn enwedig oherwydd y defnydd o "caiff" yn adran 5(2).

**65.** Hyd ag y deallwn ni, mae gan y Llywydd ddisgresiwn, o dan adran 5 o'r Bil, i gynnig dyddiad ar gyfer pŵl wedi'i ohirio, ond dim ond ar ôl i uwchfwyafrif o Aelodau bleidleisio o blaid y dyddiad hwnnw o dan adran 5(2)(a) y caiff y dyddiad 'ei bennu'.

**66.** Ar sail hynny:

- I ba raddau, os o gwbl, y mae modd i Aelodau o'r Senedd ddiwygio cynnig gan y Llywydd yn cynnig dyddiad penodedig wedi'i ohirio ar gyfer yr etholiad?
- Os na fydd uwchfwyafrif o'r Senedd yn pleidleisio o blaid dyddiad a gynigir gan y Llywydd, a all y Llywydd gyflwyno cynnig dilynol yn cynnig dyddiad arall a cheisio cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y dyddiad newydd?
- Os felly, a fyddai angen i'r Prif Weinidog wneud cynnig newydd o dan adran 5(1) o'r Bil cyn y gallai hyn ddigwydd, neu a allai'r Llywydd, mewn theori, gyflwyno nifer o ddyddiadau tan fod uwchfwyafrif o Aelodau o'r Senedd yn cymeradwyo un?

- O dan adran 5 o'r Bil, a all y Llywydd bennu dyddiad ar gyfer etholiad wedi'i ohirio, ac eithrio un a gymeradwywyd yn benodol gan uwchfyafrif o'r Senedd?

**67.** Byddai'n well gennym pe bai dyddiad Etholiad 2021, o gael ei ohirio o ganlyniad i'r pandemig, yn cael ei gymeradwyo gan y Senedd, gyda'r Llywydd yn cyflawni'r rôl o roi'r penderfyniad hwnnw ar waith.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog egluro yn ystod y ddadl Cyfnod 1, oblygiadau'r ffordd y mae adrannau 5(2), 5(3), 5(4) a 5(6) o'r Bil wedi'u drafftio drwy gadarnhau'r hyn a ddeallwn, fel y nodir ym mharagraff 65, a mynd i'r afael â phob un o'r cwestiynau ym mharagraff 66.

**68.** Er ein bod yn derbyn y rhesymu pragmatig dros y pwerau yn adran 5, credwn fod angen gwneud unrhyw benderfyniad o'r fath i ohirio Etholiad 2021 cyn gynted â phosibl.

#### Pŵer pellach i amrywio dyddiad Etholiad 2021 (adran 6)

---

**69.** Mae adran 6 yn darparu y caiff y Llywydd amrywio dyddiad etholiad a ohiriwyd o dan adran 5 i'w gynnal fis yn gynharach neu fis yn ddiweddarach na'r dyddiad sydd newydd ei bennu, ar yr amod nad yw'n hwyrach na 5 Tachwedd 2021. Mae hyn yn adlewyrchu pŵer presennol y Llywydd i gynnal etholiad fis yn gynharach neu'n ddiweddarach na 6 Mai 2021 o dan adran 4 o Ddeddf 2006, ond yng nghyd-destun etholiad wedi'i ohirio.

**70.** Nid oes rhaid i amrywiad o dan adran 6 fod yn gysylltiedig â'r coronafeirws, ac ni fydd yn rhaid i'r Llywydd geisio cymeradwyaeth ar gyfer amrywiad o'r fath drwy bleidlais yn y Senedd.

**71.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog esbonio pam yr ystyrir ei bod yn briodol cynnwys pŵer adran 6 i amrywio dyddiad Etholiad 2021 ymhellach, o gofio'r ffaith y gallai hynny alluogi'r Llywydd i ddiystyru penderfyniad dwy ran o dair o Aelodau o'r Senedd i bennu dyddiad penodol ar gyfer etholiad wedi'i ohirio.

**72.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y pŵer hwn yn cadw'r pŵer presennol yn adran 4 o Ddeddf 2006 ac mai'r bwriad oedd caniatáu ar gyfer 'trychinebau cydamserol'. O dan amgylchiadau o'r fath, gallai fod angen gohirio Etholiad 2021 am reswm nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r corafeirws.

**73.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog hefyd a oedd o'r farn ei bod yn bosibl yn ymarferol cynnal etholiad fis yn gynnar neu ei ohirio am fis.

**74.** Cydnabu'r Gweinidog mai dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y câi'r pŵer hwn ei ddefnyddio. Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai'n rhaid arfer y pŵer mewn ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau.

**75.** O ystyried y gellid defnyddio'r pŵer hwn mewn amgylchiadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r pandemig ac y byddai hynny'n diystyru dyddiad y bleidlais fel y cytunwyd gan o leiaf 40 o Aelodau, credwn y dylai fod yn ofynnol i'r Llywydd gyhoeddi datganiad yn esbonio'r rhesymau dros ei phenderfyniad.

**Argymhelliad 6.** Dylid diwygio Adran 6 o'r Bil i gynnwys gofyniad bod y Llywydd yn gwneud datganiad yn cadarnhau'r diwrnod a bennwyd ar gyfer cynnal y bleidlais ac yn esbonio pam yr oedd angen amrywio'r dyddiad a bennwyd yn flaenorol o dan adran 5.

**76.** Os bydd y Llywydd yn cynnig amrywio ddyddiad yr etholiad ymhellach o dan adran 6(2) o'r Bil, mae adran 6(4) o'r Bil yn darparu y caiff ei Mawrhydi, drwy broclamasuwn brenhinol, ddiddymu'r Senedd a'i gwneud yn ofynnol i'r bleidlais gael ei chynnal ar y diwrnod a gynigiwyd gan y Llywydd.<sup>26</sup> Nid yw'r Bil yn nodi rhagor o fanylion ynghylch sut y byddai gwneud proclamasuwn yn gweithio'n ymarferol.

**77.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am ffurf y proclamasuwn brenhinol a'r drefn o ran ei baratoi a'i gyhoeddi. Gwnaethom hefyd ofyn iddi a oes angen deddfwriaeth bellach i ymdrin â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod adran 6 o'r Bil yn effeithiol.

**78.** Esboniodd y Gweinidog y bydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei wneud o dan adran 116 o Ddeddf 2006 ar 10 Chwefror 2021.<sup>27</sup> Dywedodd y Gweinidog y bydd y Gorchymyn yn cynnwys ffurfeiriad a phroses ar gyfer proclamasuynau i'w gwneud o dan adrannau 4 a 5 o Ddeddf 2006 a'r cynnig yw y byddai'r ffurfeiriad a'r broses hyn yn cael eu defnyddio fel cysail neu dempled ar gyfer proclamasuwn a wneir o dan adran 6 o'r Bil.

**79.** Nodwn na fydd y Gorchymyn newydd yn y Cyfrin Gyngor yn gymwys, mewn gwirionedd, i bŵer y Llywydd i geisio gohirio etholiad drwy gyhoeddi proclamasuwn brenhinol o dan adran 6 o'r Bil. Felly, os na ddarperir ffurfeiriad a phroses ffurfiol yn benodol ar gyfer cyhoeddi proclamasuwn brenhinol o dan adran

---

<sup>26</sup>Mae adran 2 o'r Bil yn datgymhwyso'r terfyn amser statudol ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd os caiff dyddiad yr etholiad ei amrywio drwy Broclamasuwn Brenhinol.

<sup>27</sup> Cyfeiriodd y Gweinidog at hyn yn y cyfarfod fel Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasuynau) 2021

6 o'r Bil, mae'n bosibl na fyddai modd i'r Llywydd ddefnyddio'r pŵer o dan adran 6.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog esbonio i'r Aelodau yn ystod y ddadl Cyfnod 1 pa fesurau sydd i'w rhoi ar waith i ddarparu'n benodol ar gyfer ffurf y proclamasiwn brenhinol o dan adran 6 o'r Bil a'r drefn o ran ei baratoi a'i gyhoeddi, er mwyn sicrhau bod y Llywydd yn gallu arfer y pŵer yn llawn o dan adran 6.

#### Dyddiad y cyfarfod cyntaf ar ôl Etholiad 2021 (adran 4)

**80.** Mae adran 4 yn darparu bod yn rhaid i'r Senedd gyfarfod cyn pen 21 diwrnod calendr ar ôl cynnal Etholiad 2021. Mae hyn yn gymwys pa un a gynhelir Etholiad 2021 yn ôl y bwriad neu pha un a gaiff ei ohirio. O dan y trefniadau presennol, mae'n rhaid i'r Senedd gyfarfod o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i Etholiad 2021 (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul a gwyliau banc).

**81.** Heb y Bil, pe bai'r Etholiad yn cael ei gynnal yn ôl y bwriad ar 6 Mai 2021, byddai'n rhaid i'r Senedd gyfarfod erbyn 26 Mai 2021. O dan adran 4 o'r Bil, pe bai Etholiad 2021 yn cael ei gynnal yn ôl y bwriad ar 6 Mai 2021, byddai'n rhaid i'r Senedd gyfarfod erbyn 27 Mai 2021.

**82.** Felly, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae'r Bil yn darparu diwrnod ychwanegol cyn bod rhaid i'r Senedd gyfarfod o dan y trefniadau presennol. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

"Diben yr estyniad hwn yw rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer gohiriad posibl wrth gyfrif pleidleisiau, cadarnhau canlyniadau ac ethol Aelodau..."<sup>28</sup>

**83.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam yr ystyrir bod angen estyniad 24 awr a beth oedd y dystiolaeth wrth wraidd y penderfyniad hwn. Wrth wneud hynny, gwnaethom nodi'r cyfeiriad ym mharagraff 26 o'r Memorandwm Esboniadol at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd â Swyddogion Canlyniadau.

**84.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau ynghylch nifer o faterion ymarferol a allai ddod i'r fei o ganlyniad i ddiffyg hyblygrwydd staff neu fesurau cadw pellter cymdeithasol mewn neuaddau cyfrif, er enghraifft. Awgrymodd y Gweinidog hefyd na fyddai'r pleidleisiau ar gyfer seddi etholaethol yn cael eu cyfrif tan y bore ar ôl diwrnod yr

<sup>28</sup>Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 26



etholiad, a bod neuaddau cyfrif mewn nifer o etholaethau yn debygol o gyfrif y pleidleisiau yn eu tro yn hytrach nag ar yr un pryd. Yn sgil hynny, 24 awr oedd yr amcangyfrif gorau o'r amser ychwanegol y gallai fod ei angen.

---

Pwerau i ohirio is-etholiadau'r Senedd ac awdurdodau lleol (adrannau 7 ac 8)

---

**85.** Mae adran 7 yn galluogi gohirio is-etholiadau ar gyfer seddau etholaethol y Senedd sy'n dod yn wag ar ôl 6 Mai 2021. Mae'r adran yn rhoi pŵer i'r Llywydd ohirio is-etholiadau o'r fath i'r diwrnod cynharaf yr ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.<sup>29</sup> Gellir arfer y pŵer fwy nag unwaith, ond ni ellir ei ddefnyddio i bennu dyddiad ar ôl 5 Tachwedd 2021.

**86.** Nid oes rhaid i ohiriad o dan adran 7 o'r Bil ymwneud â'r corafeirws, er bod y Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio i ymateb i bandemig iechyd y cyhoedd.<sup>30</sup>

**87.** Mae adran 8 o'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ohirio is-etholiadau llywodraeth leol sy'n digwydd rhwng 6 Mai 2021 a 5 Tachwedd 2021.

**88.** Diffinnir is-etholiad llywodraeth leol fel etholiad i lenwi swydd cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru, y bwriedir ei gynnal rhwng 6 Mai 2021 a 5 Tachwedd 2021.

**89.** Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y bwriedir i'r pŵer yn adran 8 gael ei ddefnyddio pan na fyddai sefyllfa iechyd y cyhoedd yn caniatáu ar gyfer cynnal is-etholiadau llywodraeth leol yn ddiogel,<sup>31</sup> nid oes rhaid i ohiriad o dan adran 8 fod yn gysylltiedig â phandemig y coronafeirws.

**90.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad oedd y pwerau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r corafeirws. Dywedodd y Gweinidog fod cynsail wedi'i sefydlu gan *Ddeddf Coronafeirws 2020* ac, er nad yw'n ofynnol, y disgwyliad yw y byddai unrhyw ohiriad o'r fath yn gysylltiedig â'r corafeirws. Nododd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru am gael rhywfaint o hyblygrwydd, yn enwedig i reoli materion sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau.

---

<sup>29</sup>Mae adran 2 o'r Bil yn gwneud y darpariaethau ar seddau etholaethol gwag y Senedd yn Neddf 2006 yn ddarostyngedig i adran 7 o'r Bil, sy'n grymuso'r Llywydd i ohirio is-etholiadau.

<sup>30</sup>Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 38

<sup>31</sup>Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 39

**91.** Gellir arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 8 fwy nag unwaith mewn perthynas ag unrhyw is-etholiad awdurdod lleol. Gall Rheoliadau o'r fath ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol yn y Senedd. Felly, pŵer Harri VIII yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau gan ei fod yn caniatáu diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

**92.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

" Ni fyddai modd defnyddio'r pŵer hwn i bennu dyddiad ar gyfer pŵl mewn is-etholiad a gynhelir ar ôl 5 Tachwedd 2021. Mae'r pŵer hwn yn galluogi i ddarpariaeth ôl-weithredol gael ei gwneud mewn perthynas ag is-etholiadau llywodraeth leol, dull sy'n gyson â'r hyn a nodir yn adran 68 o Ddeddf Coronafeirws 2020."<sup>32</sup>

**93.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfiawnhau'r rhesymau dros ddefnyddio'r weithdrefn negyddol fel a ganlyn:

"I ymateb i'r pandemig sy'n datblygu i alluogi i ddyddiad pŵl mewn is-etholiad gael ei ohirio pe bai gwneud hynny yn angenrheidiol am resymau iechyd y cyhoedd er mwyn cynnal y pŵl yn ddiogel."<sup>33</sup>

**94.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam yr oedd y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau o'r fath a nododd fod angen arfer y pŵer yn gyflym.

**95.** Mae'n bosibl y gellid arfer y pwerau hyn ar ôl Etholiad 2021 ac maent yn bwerau cyffredinol iawn, fel y gellid eu defnyddio i gynnwys y pŵer i ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw Ddeddf.

**96.** Fel egwyddor gyffredinol, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol diwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy gyfrwng y weithdrefn negyddol. Ni chawsom ein hargyhoeddi gan resymeg y Gweinidog dros wyro oddi wrth yr egwyddor hon, yn enwedig pan ellid defnyddio'r pwerau i ddiwygio'r Bil hwn pe bai'n dod yn Ddeddf.

**Argymhelliad 8.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y weithdrefn gwneud cadarnhaol yn gymwys pan ddefnyddir y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 8 i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

---

<sup>32</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 20, Tabl 5

<sup>33</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 19, Tabl 5

## Addasu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (adran 10)

---

- 97.** Mae adran 10 yn gwneud nifer o addasiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, fel y'i diwygiwyd ("Gorchymyn 2007") at ddibenion Etholiad 2021 yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau i bennu pryd y daw person yn "ymgeisydd" yn sgil y cyfnod diddymu byrrach a gynigir gan y Bil, ac i ddarparu ar gyfer trefniadau papurau enwebu a phleidleisio drwy ddirprwy, fel yr argymhellodd y Grŵp Cynllunio Etholiadau.
- 98.** O ran dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu, mae'r Pwyllgor yn nodi, er y gwneir addasiadau at ddibenion Etholiad 2021 i is-ddeddfwriaeth a wneir gan adran 10 o'r Bil, mae diwygiadau sy'n ymwneud ag is-etholiadau awdurdodau lleol yn cael eu gwneud i ddarnau eraill o is-ddeddfwriaeth drwy reoliadau fel Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2021.
- 99.** Mae adran 10(3) o'r Bil yn addasu Gorchymyn 2007 i'r perwyl y daw'r holl bobl sy'n sefyll etholiad i'r Senedd yn ymgeiswyr ar 7 Ebrill 2021. Bydd hyn yn wir pa un a yw Etholiad 2021 yn cael ei gynnal ar 6 Mai neu'n cael ei ohirio tan ddyddiad diweddarach (o dan adran 5 neu adran 6 o'r Bil). Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau sut y bwriedir i hyn weithio'n ymarferol, yn enwedig o safbwynt gwariant etholiadol a chyfyngiadau darlledu, ac os caiff yr etholiad ei ohirio, a oes disgwyl y bydd rhagor o ddeddfwriaeth i ymdrin â chyfnod ymgeisyddiaeth estynedig.
- 100.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod trafodaethau â Chomisiwn y Senedd ynghylch materion sy'n cynnwys Cod Ymddygiad yr Aelodau a gwariant etholiadol yn parhau, ac na ddarperir ar gyfer unrhyw newidiadau ar wyneb y Bil gan y bydd y newidiadau hynny'n dibynnu ar ddyddiad yr etholiad.
- 101.** Dywedodd y Gweinidog, os caiff Etholiad 2021 ei ohirio, y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i ddatrys yr anawsterau o ran gwariant etholiadol. O ran natur y ddeddfwriaeth honno, dywedodd y Gweinidog wrthym y gallai fod angen newidiadau gwahanol pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio am fis (er enghraifft) na phe bai'n cael ei ohirio tan y dyddiad hwyaf posibl.
- 102.** Mae adran 13 o Ddeddf 2006 eisoes yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer etholiadau drwy Orchymyn. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad oedd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol i Orchymyn 2007.

**103.** Dywedodd y Gweinidog fod y newidiadau parhaol i Orchymyn 2007 wedi'u gwneud gan Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020, y cytunodd y Senedd arno cyn y Nadolig, tra bod y newidiadau dros dro at ddibenion Etholiad 2021 wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil i'w gwneud yn fwy hygyrch.

---

**Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol (adran 12)**

---

**104.** Mae adran 12 o'r Bil yn rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol neu drosiannol. Felly, pŵer Harri VIII yw'r pŵer hwn i wneud rheoliadau gan ei fod yn caniatáu diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

**105.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam y mae angen y pŵer hwn yn adran 12 ynghyd â'r pŵer yn adran 13 o Ddeddf 2006, sydd eisoes yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer etholiadau drwy Orchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**106.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y pŵer presennol yn adran 13 o Ddeddf 2006 yn gyfyngedig a bod angen y pŵer o dan adran 12 o'r Bil er mwyn ymdrin â phob posibilrwydd a allai godi.

**107.** Caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 12 os byddant o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Bil, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddo neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddo.

**108.** Caiff rheoliadau o dan adran 12:

- wneud darpariaeth ôl-weithredol mewn perthynas ag is-etholiad awdurdod lleol (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 8(2));
- diwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad;

ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol yn y Senedd.

**109.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y Bil yn ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r etholiad cyffredinol a all godi o ganlyniad i'r pandemig, gall y sefyllfa sy'n symud yn gyflym arwain at broblemau na fyddai neb wedi'u rhagweld ond sydd angen deddfwriaeth i'w datrys. Gall gohirio'r pŵl arwain at ganlyniadau ymarferol, megis ernes ymgeiswyr a phleidleisiau

a gaiff eu dinistrio yn y post, ac is-ddeddfwriaeth fyddai orau i ymdrin â hynny."<sup>34</sup>

**110.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfiawnhau'r rhesymau dros ddefnyddio'r weithdrefn negyddol fel a ganlyn:

"Byddai'r pwerau hyn ond yn ymwneud â diben y Bil neu â gweithredu'r Bil yn llawn .

Bydd angen cymryd camau cyflym mewn perthynas â thestun y Bil."<sup>35</sup>

**111.** Gwnaethom holi'r Gweinidog pam y mae adran 12 o'r Bil yn darparu pŵer Harri'r VIII sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, yn enwedig gan fod modd defnyddio pŵer o'r fath i wneud darpariaeth ôl-weithredol, i ddirymu deddfwriaeth sylfaenol ac i addasu'r ddeddfwriaeth hon (os caiff ei phasio). Wrth ateb, cydnabu'r Gweinidog y byddai fel arfer yn cytuno â'r weithdrefn gadarnhaol wrth arfer pwerau Harri VIII ond dywedodd fod hwn yn gyfnod eithriadol a'i bod yn hollbwysig gweithredu'n gyflym.

**112.** Rydym yn cydnabod y gall fod angen gweithredu'n gyflym. Fodd bynnag, mae rheoliadau a wnaed mewn ymateb i bandemig y coronafeirws wedi'u gwneud yn gyflym hefyd ond nid yw hynny wedi golygu bod angen defnyddio'r weithdrefn negyddol. Nodwn hefyd y gallai'r rheoliadau hyn ddiwygio'r Bil hwn ei hun pe bai'n dod yn Ddeddf. At hynny, mae'n bosibl y gellid gwneud rheoliadau o'r fath yn ystod unrhyw doriad cyn y diddymiad; o dan amgylchiadau o'r fath, efallai na fydd yn bosibl cyflwyno cynnig i ddirymu tan ar ôl i Etholiad 2021 gael ei gynnal. Er bod senario o'r fath yn annhebygol, dylid parhau i sicrhau cydbwysedd o ran pŵer gweithredol. Credwn y byddai'n briodol defnyddio gweithdrefn gwneud cadarnhaol pan fo rheoliadau o dan adran 12 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol (gan gynnwys y Bil hwn pe bai'n dod yn Ddeddf).

**Argymhelliad 9.** Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a wneir o dan adran 12 sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gwneud cadarnhaol.

---

<sup>34</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 20, Tabl 5

<sup>35</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 20, Tabl 5

---

## Pleidleisio drwy'r post

---

**113.** Nodir yn y Memorandwm Esboniadol y "trefnir gweithgareddau hyrwyddo i annog pleidleiswyr i ddefnyddio ...pleidleisio drwy'r post" a bod y "mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith drwy ddulliau anneddfwriaethol".<sup>36</sup>

**114.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog esbonio pam y mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad oes angen darpariaethau deddfwriaethol wrth gefn ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn y Bil.

**115.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n anymarferol cynnal Etholiad 2021 drwy'r post yn unig gan fod Llywodraeth y DU, yn dilyn ymgynghoriad, wedi gwrthod ystyried y mesur ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau y bwriedir eu cynnal ar yr un diwrnod.

**116.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod nifer o faterion yn ymwneud â threfniadau pleidleisio drwy'r post yn dal i gael eu trafod â Swyddogion Canlyniadau. Yn benodol, dywedodd y Gweinidog fod gweinyddwyr etholiadol yn pryderu am ymarferoldeb gweinyddu nifer fawr o geisiadau am bleidlais drwy'r post ar y diwrnod olaf y caniateir ceisiadau o'r fath.

**117.** Dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi diystyru gwneud mân ddiwygiadau i'r Bil yng Nghyfnod 2 pe bai eu hangen o ran gweinyddu'r bleidlais bost.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau i'r Aelodau yn ystod y ddadl Cyfnod 1 pa fath o welliannau y gallai Llywodraeth Cymru fod yn eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 mewn perthynas â threfniadau wrth gefn ar gyfer pleidleisio drwy'r post.

---

## Pleidleisio cynnar

---

**118.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd y byddai hi a'i chyd-Weinidogion "wedi hoffi cyflwyno darpariaethau ar gyfer pleidleisio cynnar er mwyn rhoi mwy o ddewis i bobl o ran pryd i bleidleisio'n bersonol, ond rydym wedi derbyn cyngor y gymuned etholiadol y bydd etholiad y Senedd, fel y mae pethau, [...] ni ellir cyflawni hyn ar gyfer 6 Mai", ond y byddant yn "parhau i adolygu pleidleisio cynnar os caiff yr etholiad ei ohirio", ac felly y bydd Llywodraeth Cymru efallai'n "dychwelyd at hyn yng Nghyfnod 2".<sup>37</sup>

---

<sup>36</sup>Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 65

<sup>37</sup> Y Cyfarfod Llawn, 26 Ionawr 2021, Cofnod y Trafodion

**119.** Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro pam nad yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pleidleisio cynnar.

**120.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth y DU wedi gwrthod ystyried pleidleisio cynnar ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a gynhelir ar yr un pryd, ac nad oedd hi'n werth ystyried y broses gymhleth o gynnig pleidleisio cynnar ar gyfer un etholiad ac nid y llall. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog pe bai angen gohirio Etholiad 2021 o 6 Mai a'i bod yn bosibl cynnal etholiad y Senedd ac etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar ddiwrnodau ar wahân, yna byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o bleidleisio'n gynnar.

**121.** O dan amgylchiadau o'r fath, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro sut y byddai'r ddarpariaeth ar gyfer pleidleisio cynnar yn debyg o gael ei strwythuro'n ymarferol.

**122.** Dywedodd y Gweinidog fod union natur y drefn bleidleisio cynnar yn dal i gael ei thrafod â Swyddogion Canlyniadau. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog fod pleidleisio dros sawl diwrnod yn cael ei drafod, gan ystyried asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, mynediad i bobl anabl a chapasiti Swyddfeydd Canlyniadau o ran staff.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau i'r Aelodau yn ystod y ddadl Cyfnod 1 sut a phryd y gallai Llywodraeth Cymru fod yn cyflwyno trefniadau wrth gefn yng Nghyfnod 2 mewn perthynas â phleidleisio cynnar.